

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 11fed Medi, 2023 drwy gyfrwng Zoom

Presenol: Steve (SW),(Cadeirydd) Iolo Roberts (IPR),Iolo ap Gwynn (IAG),Richard (RR), Keith (KR), Dwynwen (DP), Dewi (DH), Ariannell (AP), Gethin (GR), Sioned (SLL)

Ymddiheuriadau: Dilys, Raymond, Elen

1.	<u>COFNODION</u>	
		Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Mai, 2023 fel rhai cywir
2.	<u>LLONGYFARCHIADAU</u>	
		Llongyfarchodd SW Ariannell , aelod o’r Pwyllor, am redeg 35.7 milltir ar ddiwrnod 1af y ras “Ring of Fire - Ultra marathon” ar hyd arfordir Ynys Môn yn nechrau Medi ac un arall o aelodau’r Clwb, sef Sonia Williams, oedd wedi rhedeg y ras yn ei chyfanrwydd dros y 3 diwrnod, cyfanswm o 135 o filltiroedd.
3.	<u>MATERION ARIANNOL</u>	
		A. Adroddiad y Trysorydd Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â’r sefyllfa gyfredol Adroddodd <ul style="list-style-type: none">• bod 251 o aelodau gan y Clwb ar 1 Medi 2023 a hefyd 70 o “Gyfeillion” nad oeddynt yn talu’r tâl aelodaeth llawn• bod swm o £5933.89 yn y banc ar 1 Medi 2023 yn cynnwys £881.41 o arian coffa Gareth Pierce• cafwyd rhodd o £50 i goffrau’r Clwb gan gyn aelod oedd wedi penderfynu peidio adnewyddu ei aelodaeth eleni Cytunwyd nodi’r wybodaeth B. Cronfa Goffa Gareth Pierce Adroddodd SW <ul style="list-style-type: none">• Ei fod wedi cael trafodaethau efo’r Urdd a bod cytundeb i ddefnyddio’r arian sydd gan y Clwb yn y Cronfa Goffa• Bydd yr Urdd yn trefnu cwrs penwythnos o fynydda a gweithgareddau awyr agored i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nglan Llyn ar 22-24 Medi 2023• Bydd lle i 14 ar y cwrs a bydd y gost i rai yn mynychu yn £59• Er mwyn cadw’r gost i’r unigolion yn isel byddai holl arian y Clwb yn y Gronfa yn cael ei ddefnyddio ac fe fyddai’r Urdd yn cyfrannu hefyd.• Gan fod yr Urdd a phrofiad o gynnal cyrsiau fel hyn fyddai dim angen cymorth ymarferol gan y Clwb i’w cynnal• Bod teulu Gareth yn gefnogol ac y bydd cydnabyddiaeth o gefnogaeth y Clwb drwy garedigrwydd teulu Gareth yn y cyhoeddusrwydd i’r cwrs• Bydd yn trafod efo’r Trysorydd y trefniadau i drosglwyddo’r arian i’r Urdd wedi iddi ddychwelyd o’i gwyliau

	<p>Cytunwyd cefnogi'r bwriad i ddefnyddio arian a dderbyniwyd fel a nodir uchod a diolch i SW am ei waith yn trefnu.</p>	
4.	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2023</u></p> <p>Adroddwyd gan IPR</p> <ul style="list-style-type: none"> • mai methiant fu'r ymdrech i gael hyd i safle yn ardal Dolgellau ac felly gwnaed trefniadau i gynnal y cyfarfod yng Ngwesty'r Royal Oak ym Metws y Coed unwaith eto ar nos Sadwrn, 11 Tachwedd 2023. • Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 6pm gyda'r cinio i ddilyn am 7.30pm ac fe fydd mwy o wybodaeth yn cael ei anfon i'r aelodau yn y dyfodol agos • bydd y cyfarfod yn cytuno ar aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2024 a gofynnodd i unrhyw un nad oedd yn dymuno parhau i wasanaethu adael iddo wybod • Bydd DP yn trefnu taith ar y diwrnod <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth.</p>	
5.	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd RR ar y materion canlynol:</p> <p>Bod rhaglen lawn o weithgareddau yn ei lle rhwng Medi a Rhagfyr 2023 gyda 22 o deithiau yn cael eu cynnig yn y gogledd, un bob mis yn y de a dwy hyd yma ar ddydd Mercher a bod Haf yn y broses o drefnu mwy</p> <p>Roedd yn falch o allu adrodd bod nifer o aelodau newydd wedi dechrau arwain teithiau 'r Clwb, datblygiad calonogol gan na fyddai'r Clwb yn gallu bodoli heb arweinyddion teithiau</p> <p>Yn ychwanegol roedd 10 o aelodau wedi arwyddo i ddilyn y cwrs Arweinydd Mynydd (cymhwyster haf) ac fe fyddai yn fanteisiol i'r Clwb gael arweinyddion profiadol i arwain teithiau</p> <p>Roedd y drefn o raddio teithiau yn ei lle bellach ac o fudd i roi syniad o natur y teithiau dan sylw</p> <p>Adroddodd KR ei fod yn disgwyl cadarnhad gan y gwesty yn Crianlarich am un neu ddau o bethau. Wedi eu derbyn bydd yn cylchredeg gwybodaeth am yr wythnos yn yr Alban yng ngaeaf 2024 a fydd yn cael ei chynnal rhwng 17-24 Chwefror. Wedi cwblhau'r trefniadau yma, bydd yn trefnu wythnos yn yr Alban ym mis Mai, dros ŵyl banc y Sulgwyn. Bu ef a DP eisoes yn edrych ar safleoedd posib.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. nodi'r wybodaeth a diolch i Richard , Dewi a Haf am eu holl waith yn trefnu rhaglen weithgareddau'r clwb</p> <p>ii. diolch hefyd i Keith am ei holl waith yn trefnu teithiau i'r Alban a chefnogi yr hyn sydd ganddo ar y gweill. Nodwyd barn y pwyllgor bod cael lleoliad gydag o leiaf un dafarn/gwesty yn agos yn fanteisiol wrth ystyried lleoliadau ar gyfer y teithiau hyn.</p>	
6.	<p><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2023 a 2024</u></p>	

Adroddodd SW bod darlith Catrin Meurig wedi bod yn llwyddiant a phawb wedi ei mwynhau. Roedd yn dda cael aelod o'r Clwb i roi'r ddarlith a diolchodd iddi ac i DP am wneud y trefniadau. Diolchodd hefyd i IPR am arwain taith y Clwb ar yr Eifl yn ystod yr wythnos. Byddai nawr angen ystyried y trefniadau ar gyfer Eisteddfod 2024 ym Mhontypridd.

Cytunwyd

i. ategu sylwadau SW a diolch i bawb fu ynglŷn â threfniadau ar gyfer gweithgareddau yn gysylltiedig â'r Eisteddfod ym Moduan.

ii. gofyn i DP ddarparu gwybodaeth i SW am sut i wneud y trefniadau ymarferol ar gyfer Eisteddfod 2024

iii. gofyn i SW holi Gerallt Pennant a fyddai'n fodlon rhoi'r ddarlith yn 2024 am ei brofiadau dros y blynyddoedd yn dringo'r Munroau yn yr Alban. Gan fod gan Gerallt gysylltiadau ag ardal Pontypridd, gellid hefyd ymgynghori ag ef ynglŷn ag unigolion mwy lleol y gellid eu hystyried.

7. MATERION CMP

Adroddodd SW

- bod Tim Jepson, fu'n cadeirio Rhanbarth Gogledd Cymru CMP ers nifer o flynyddoedd bellach, wedi datgan nad yw am ddal ati wedi i'w dymor presennol ddod i ben yn Hydref 2024. Rhagwelir y gallai penodi olynnydd iddo fod yn broblemus. Fe ystyriwyd yn y cyfarfod diwethaf a fyddai, o bosib, angen ystyried trefniadau amgen megis rhannu cyfrifoldebau
- soniwyd hefyd am broblemau ariannol y CMP gyda phosibilrwydd gwneud toriadau gan gynnwys diswyddiadau oherwydd diffyg cyllid. Gobeithir y bydd y sefyllfa yn gliriach erbyn y cyfarfod nesaf.

Cytunwyd nodi'r wybodaeth.

8. MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED

A. Cwrsiau Arweinydd Mynydd

Adroddodd DP

- fel y nodwyd eisoes bod 10 o aelodau'r Clwb wedi arwyddo i ddilyn y cwrs Arweinydd Mynydd (cymhwyster haf) ac y byddent yn dechrau ar eu hyfforddiant yn y dyfodol agos
- ystyriwyd cynnal rhywbeth cyffelyb yn ne Cymru ond daeth yn amlwg mai ond Eryri oedd yn cael ei ystyried gan y Corff Rheoli fel man addas i gynnal y math yma o gyrsiau yng Nghymru ac felly ni fyddai hyn yn bosib. Gellid, fodd bynnag, gynnal cwrs "Lowland Leader" mewn ardaloedd yn ne Cymru.

Cytunwyd nodi'r wybodaeth.

B. Cwrs Cymorth Cyntaf

Adroddodd DH ei fod yn credu fod cyfnod y cymhwyster cymorth 1af a dderbyniodd 5 o aelodau'r Clwb yn y de yn dod i ben eleni a bod angen ystyried ei adnewyddu.

Cytunwyd y byddai DP yn cael gair efo Sian o'r Bartneriaeth am hyn a hefyd gofyn i DH gysylltu â threfnydd y Bartneriaeth yn y de i drafod.

<p>9.</p>	<p><u>OFFER Y CLWB</u></p> <p>Cyflwynwyd rhestr o offer y Clwb a'i leoliad, wedi ei baratoi gan y Trysorydd, ar 24 Awst 2023.</p> <p>Adroddodd DH, er bod y Pwyllgor wedi penderfynu mai mater i aelodau unigol oedd cario pecynnau cymorth cyntaf, ei fod yn bersonol wedi prynu pecyn pwrpasol ar gyfer mynydda a'i fod yn sicrhau ei fod yn cael ei gario ar holl deithiau'r Clwb yn y de.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. nodi'r wybodaeth</p> <p>ii. gofyn i SW wneud cais i Gareth Everett Roberts, gan nad yw yn arwain teithiau bellach, i drosglwyddo'r lloches sydd yn ei feddiant yn ôl i'r Clwb</p>	
<p>10.</p>	<p><u>DISGOWNT I AELODAU MEWN SIOPA MYNYDDA</u></p> <p>Adroddodd SLL ei fod wedi bod yn un o siopau Joe Brown yn ddiweddar a chael ar ddeall nad oeddynt bellach yn cynnig gostyngiad 10% ar nwyddau i aelodau'r Clwb. Yn hytrach roedd ganddynt drefn teyrngarwch lle y cesglid pwyntiau wrth wario a chael disgownt wedi ennill digon o'r pwyntiau.</p> <p>Nodwyd yn y drafodaeth fod rhai o staff siop Crib Goch yn cynnig disgownt i aelodau ond eraill yn dweud nad yw'r drefn yma yn bodoli yno bellach chwaith.</p> <p>Cytunwyd gofyn i SLL wneud mwy o ymholiadau gyda'r siopau yma i weld beth yw'r gwir sefyllfa.</p>	
<p>11.</p>	<p><u>CYHOEDDIADAU</u></p> <p>Adroddodd RR ei fod wedi prynu llyfr yn ddiweddar gan arweinydd mynydd o'r enw Mark Reeves ar fynydda yn Eryri. Er ei fod wedi mwynhau darllen y llyfr yn arw ac yn llawn canmoliaeth am ei gynnwys roedd wedi sylwi ar nifer o wallau ieithyddol ynddo megis defnyddio termau fel "Glyders" a "Carnedds"</p> <p>Roedd yn bwriadu ysgrifennu at yr awdur i'w longyfarch am ei lyfr ond hefyd dwyn ei sylw at y gwallau yma rhag ofn y bydd ailargraffiad o'r gyfrol. Roedd wedi bwriadau gwneud hyn fel unigolyn ond gofynnodd a fyddai'r Pwyllgor yn fodlon ei gefnogi i gysylltu ar ran y Clwb.</p> <p>Adroddodd DP fod Gerallt wedi bod mewn cysylltiad â'r Austrian Alpine Club ynglŷn â gwallau ieithyddol am fynyddoedd Cymru yn eu cylchgrawn nhw ac roedd bellach yn eu cynorthwyo drwy ddarllen dros erthyglau perthnasol er mwyn cywiro unrhyw wallau. Gofynnodd a ellid cynnig rhywbeth cyffelyb i'r awdur yma.</p> <p>Cytunwyd cefnogi bwriad RR i gysylltu â'r awdur dan sylw ac ar yr un pryd cynnig cymorth iddo adnabod a chywiro'r gwallau.</p>	
<p>10.</p>	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 15fed o Ionawr, 2024, drwy gyfrwng Zoom.</p>	